35. Arfordir de Gŵyr: Llyn Owrty

Owrtyn, Gŵyr, Abertawe

Cyfeiriadau Grid	Map Explorer 164 yr A.O., Gŵyr; Prif fynedfa: SS460850; Canolfan y safle: SS462848
Statws	Rhan o SoDdGA Arfordir De Gŵyr sydd, yn ei dro, yn rhan o safle Natura 2000 Ewropeaidd, sef Clogwyni Môr Calchaidd AGA De Orllewin Cymru.
Daliadaeth	Prynwyd y warchodfa ym mis Rhagfyr 1963 a Mawrth 1986 gyda chymorth ariannol a chymorth grant o Gronfa Nuffield CHGN, Ymddiriedolaeth y Pererin a CFEN. Prynodd yr Ymddiriedolaeth yr hawliau amaethyddol yn 1996, gyda chymorth grant gan CCGC.
Maint	11.6 he (28.6 erw).
Lleoliad a Nodiadau Mynediad	0.5 km i'r de o bentref Owrtyn, gerllaw gwarchodfa natur Trwyn Porth Eynon. Gellir sicrhau mynediad i'r warchodfa drwy'r giât gyntaf i'r cae, ar y chwith ar y trac yn arwain allan o bentref Owrtyn i'r gorllewin, neu ar hyd y llwybr troed cyhoeddus arfordirol, a thros gamfa o Drwyn Porth Eynon. Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle.
Cludiant cyhoeddus	Bysus rhifau 117, 118, 115 a 21a o Orsaf Fysus Quadrant yn Abertawe i bentref Owrtyn.

Disgrifiad: Clogwyn môr, glaswelltir calchfaen, rhostir a phrysgwydd.
Mae'r warchodfa wedi'i henwi ar ôl y bae y mae'n edrych drosto. Ceir yr amrywiaeth llawn o gynefinoedd Arfordir De Gŵyr yn y warchodfa hon bron, yn amrywio o brysgwydd Drain Gwynion a Drain Duon, i gymysgedd o eithin a rhos, sgri calchfaen agored, a glaswelltir calchfaen wedi neu heb ei wella.

Gwelir yr ardaloedd o laswelltir heb ei wella ar y llwyfandir sydd agosaf at lan y môr. Mae hwn yn draeth ffosil yn dyddio'n ôl i'r Oes Iâ ddiwethaf. Sicrhawyd y gwelliannau wrth i'r perchennog blaenorol droi'r caeau hyn ar gyfer tatws, ac yna cawsant eu hailhadu gyda glaswellt.

Mae blodau sy'n hoffi calch, fel Rhosyn y Graig (6-9), Llaethlys (5-9), Effros (7-9) a Theim (6-8) yn ffynnu yma, tra bod Llinosiaid, Corhedyddion y Waun a Chlochdar y Cerrig yn chwilio'r glaswelltir a'r prysgwydd am fwyd. Gellir gweld Piod Môr ac adar arfordirol eraill yn y Llyn ar lanw isel.

Yn yr haf, gwelir Chwilod Trwyn Gwaed a Chwilod Teigr Gwyrdd yn rheolaidd ar y llwybr, mae'r gwyfyn Sidanaidd tonnog prin yn cuddio yn yr eithin, a cheir llu o wenyn unigol a nythod cacwn yn y twnelau sydd wedi'u cloddio yng ngwaddodion meddal y llwyfan a dorrwyd gan y tonnau.

overton mere 1 6/7/06, 10:30 am



Nodau Rheoli Cynnal y mosaig o laswelltiroedd, rhostir a phrysgwydd drwy ailsefydlu pori fel trefn reoli a chlirio'r eithin yn ofalus.

Amseroedd da i ymweld	
Mawrth - Gorffennaf	Blodau'r arfordir
Ebrill – Gorffennaf	Adar yn magu
Awst – Medi	Blodau'r rhostir
Medi – Tachwedd	Ffwng

overton mere 2 6/7/06, 10:30 am